



Ysgol Garth Olwg

Polisi Mynychu'r Ysgol

Mae'r Corff Llywodraethol Llawn wedi mabwysiadu'r polisi hwn.

Cytunwyd: Medi 2025

Arwyddwyd: *Julie Barton*

Mrs Julie Barton
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Fersiwn	1
Dyddiad	Medi 2025

Dyddiad gweithredu'r polisi:	Medi 2025
Aelod o'r Corff Llywodraethu/Staff sy'n gyfrifol am adolygu'r polisi:	Corff Llywodraethu Llawn
Llywodraethwr cyswllt y Corff Llywodraethu:	Cadeirydd y Pwyllgor Lles
Dyddiad creu:	Medi 2025
Dyddiad yr adolygiad:	Medi 2026

Rheoli Polisi

Teitl y Polisi:	Polisi Presenoldeb
Awdur:	Mrs Elin Howard
Dyddiad gweithredu'r polisi:	Medi 2025
Staff sy'n gyfrifol am yr adolygiad:	Mrs Elin Howard
Llywodraethwr Cyswllt	Cadeirydd y Pwyllgor Lles
Perchennog:	Mrs Elin Howard
Cylchred Adolygu:	Yn flynyddol

Datganiad cenhadaeth

Mae Ysgolion Partneriaeth Pontypridd wedi ymrwymo i ddarparu addysg lawn ac effeithlon i bob disgybl ac mae'n cynnwys y cysyniad o gyfleoedd cyfartal i bawb ac yn croesawu'r cysyniad o gyfleoedd cyfartal i bawb.

Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n werthfawr ac wedi'i groesawu. Rydyn ni wedi ymrwymo i'r egwyddor sylfaenol bod ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig wrth sicrhau presenoldeb, diogelwch a lles pob plentyn.

Bydd yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a phrotocolau lleol mewn perthynas â materion penodol a hawdd eu hadnabod sy'n atal plentyn rhag cael mynediad i addysg, neu lle mae pryderon diogelu.

Mae lefel uchel o bresenoldeb ysgol yn hanfodol er mwyn i ddisgybl gyrraedd eu cyflawniad addysgol llawn. Byddwn ni'n gweithio'n gyson tuag at gyrraedd cyfradd mynychu'r ysgol o 100% ar gyfer yr holl ddisgyblion. Byddwn ni'n manteisio ar bob cyfle

i gyfleu pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon i ddisgyblion a'u rhieni neu gynhalwyr.

Mae cyfraddau mynychu'r ysgol yn ddarostyngedig i gyfraith ac arweiniad addysg ac mae ein polisi mynychu'r ysgol wedi'i ysgrifennu i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth yma, a'r arweiniad a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Am wybodaeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad yma, ewch i Atodiad 2.

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer diwrnod ysgol sydd i'w rannu yn ddwy sesiwn gydag egwyl cinio yn y canol ac i fod ar gael am 190 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn ysgol.

Bydd yr ysgol yn adolygu ei systemau yn flynyddol ar gyfer gwella cyfraddau mynychu'r ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau a'i thargedau penodol fel y nodwyd gan y Llywodraethwyr, yr awdurdod lleol, Consortiwm Canolbarth y De a Llywodraeth Cymru.

Bydd y polisi yma'n cynnwys y gweithdrefnau y bydd yr ysgol yn eu defnyddio i weithio tuag at gyrraedd ei thargedau mynychu'r ysgol, fel y'u pennir gan yr awdurdod lleol.

1. Hyrwyddo mynychu'r ysgol

Sail presenoldeb da yw partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol, rhieni, cynhalwyr a'r disgyblion.

Byddwn ni yn sicrhau bod y disgyblion yn effro i bwysigrwydd presenoldeb da, a sut bydd hyn o fantais iddyn nhw nawr ac yn y dyfodol; byddwn ni yn cynnig cynlluniau gwobrwyo ar gyfer y dysgwyr unigol, dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn sydd â lefelau mynychu'r ysgol uchel, sydd heb absenoldebau heb awdurdod, a/neu sydd wedi dangos eu bod yn gwella eu cyfraddau mynychu'r ysgol yn sylweddol.

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ymyrryd yn gynnar i annog cyfraddau mynychu'r ysgol gwell ar gyfer disgyblion unigol, a'u cynorthwyo i oresgyn unrhyw rwystrau a allai fod yn atal y lefelau mynychu'r ysgol disgwylidig. Gallai'r strategaethau hyn fod yn yr ysgol, neu gellir eu gweithredu ar y cyd â phartneriaid eraill i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol i'r unigolyn a'i deulu.

Bydd y cytundeb rhwng y cartref a'r ysgol yn cynnwys manylion o sut byddwn ni yn gweithio â rhieni a chynhalwyr, yn ogystal â'r disgwyliadau o'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn sicrhau bod disgyblion yn llwyddo i gael cyfradd mynychu'r ysgol dda. Caiff y disgwyliadau yma, a'r canlyniadau posibl o beidio â bodloni'r disgwyliadau, eu hysbysu'n rheolaidd i rieni trwy gydol y flwyddyn academiaidd mewn gwahanol ddulliau fel negeseuon testun, gwefan yr ysgol, cylchlythyrau ac yn ystod nosweithiau rhieni.

2. Gweithdrefnau ysgol

Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn absennol ar gyfer sesiwn cofrestru'r bore a sesiwn cofrestru'r prynhawn yn cael ei nodi fel absennol â chaniatâd, heb ganiatâd neu ar weithgaredd addysgol awdurdodedig (presennol y tu allan i leoliad yr ysgol). Dim ond y Pennaeth, neu'r aelod o staff sy'n gweithredu ar ei ran/ei rhan, sydd â'r hawl i awdurdodi absenoldeb.

Os nad oes rheswm hysbys dros yr absenoldeb yn ystod y sesiwn cofrestru, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel un heb esboniad (cod N). Yna, bydd yr ysgol yn gweithredu'n brydlon fel rhan o'i strategaethau ymyrraeth gynnar a diogelu. Bydd hyn naill ai ar ffurf neges destun, galwad ffôn neu lythyr at y rhiant neu'r cynhaliwr i ddod o hyd i reswm am absenoldeb y disgybl. Os na fydd rheswm yn cael ei dderbyn ar ôl 10 diwrnod ysgol, neu os nad yw'r rheswm yn rhesymol, bydd y disgybl yn derbyn cofnod absenoldeb heb awdurdod (cod O).

Bydd y codio ar gyfer unrhyw absenoldebau yn unol â'r arweiniad a ddarperir gan Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru fel yn Atodiad 1.

3. Prydlondeb

Sesiwn cofrestru'r bore yn digwydd ar ddechrau'r diwrnod ysgol ;

Ysgol Isaf: 8.50yb

Ysgol Ganol 5 a 6 : 8.45yb

Ysgol Ganol 7 ac 8, Ysgol Uchaf/Hŷn: 8.30yb

Bydd y cofrestri ar agor am 30 munud o'r amser yma, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn cyrraedd ar ôl yr amser yma yn derbyn absenoldeb heb awdurdod (cod U), oni bai fod eglurhad derbyniol e.e. cludiant ysgol yn hwyr. Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn absennol ar gyfer y sesiwn cofrestru oherwydd apwyntiad meddygol cynnar yn derbyn y cod absenoldeb ag awdurdod priodol (M yn yr achos yma).

Bydd disgyblion sydd yn cyrraedd ar ôl i'r ysgol ddechrau ond cyn diwedd y cyfnod cofrestru o 30 munud yn cael eu cofnodi fel hwyr (cod L).

Bydd sesiwn cofrestru'r prynhawn yn dechrau:

Ysgol Isaf, Ysgol Ganol 5 a 6: 1yh

Ysgol Ganol 7 ac 8, Ysgol Uchaf/Hŷn: 12:10yh

Bydd unrhyw ddisgybl sydd yn cyrraedd ar ôl yr amser yma yn cael eu cofnodi fel yn bresennol ond yn hwyr (cod L) os ydyn nhw'n cyrraedd o fewn 30 munud. Ar ôl 30 munud bydd y disgybl yn cael ei gofnodi'n absennol heb awdurdod (cod U).

Mewn achos o ddisgybl yn cyrraedd yn hwyr yn gyson, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni drwy lythyr yn nodi'r effaith ar bresenoldeb y plentyn a'u cyrhaeddiad dilynol. Pe bai'r disgybl yn parhau i gyrraedd yn gyson ar gyfer y sesiwn cofrestru ar ôl derbyn llythyr, bydd yr ysgol yn gwahodd y rhiant neu gynhaliwr i drafod rhwystrau sy'n atal y plentyn rhag cyrraedd yn brydlon a chynnig cymorth lle bo'n briodol. Yn dilyn y cyfarfod, os bydd y disgybl yn hwyr eto, bydd y rhieni/cynhalwyr yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod gyda'r Pennaeth / Dirprwy Bennaeth Ysgol neu'r swyddog arweiniol dros faterion mynychu'r ysgol ynghyd â'r dros faterion mynychu'r ysgol er mwyn trafod y sefyllfa a gweithredu ymhellach os oes angen.

Bydd rhieni/cynhalwyr yn cael eu hatgoffa bod modd i'r Awdurdod Lleol cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig ar gyfer bod yn hwyr yn gyson ar ôl cau'r gofrestr. Bydd hyn yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod Lleol ynghylch cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer methu â mynychu'r ysgol, os yw nifer y codau absenoldeb heb awdurdod neu hwyr (codau O neu U) yn 10 neu'n uwch ar gyfer y tymor presennol.

4. Absenoldeb – diwrnod cyntaf

Dylai rhieni a chynhalwyr gysylltu â'r ysgol erbyn 9.00am os fydd plentyn yn methu â dod i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw. Rhaid i rieni/cynhalwyr nodi rheswm **llawn** am ddiffyg presenoldeb y plentyn; dydy dweud "teimlo'n sâl" yn unig ddim yn ddigonol. Rhaid iddyn nhw nodi hefyd pryd mae'n debygol bydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Dylai rhieni/cynhalwyr fod yn barod i ateb cwestiynau gan staff ynghylch cyflwr y disgybl, patrymau neu dueddiadau absenoldeb, ac unrhyw driniaeth y gallen nhw fod yn derbyn.

Os fydd rhiant/gwarcheidwad ddim yn cysylltu â'r ysgol, bydd staff yn ceisio dod o hyd i reswm penodol dros fethiant y disgybl i ddod i'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb, ar ôl sesiwn cofrestru'r bore a sesiwn cofrestru'r prynhawn. Efallai bydd hyn yn golygu galwad ffôn, gwasanaeth neges destun, ymweliad i'r cartref gan aelod o staff neu Swyddog Mynychu'r Ysgol a Lles. Ar ôl derbyn yr wybodaeth benodol, bydd y gofrestr yn cael ei diwygio er mwyn dangos y cod absenoldeb priodol (gweler Atodiad 1 am y mathau o godau).

Bydd plant sydd wedi'u pennu'n hynod agored i niwed yn derbyn blaenoriaeth, er enghraifft plant sy'n gyfarwydd i'r Gwasanaethau i Blant neu sy'n derbyn gofal (PDG). Bydd Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yr awdurdod lleol yn derbyn hysbysiad o absenoldebau heb esboniad o bum niwrnod neu'n fwy (neu 24 awr mewn achos o blentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant). Efallai byddan nhw'n cynnal ymweliad â'r cartref heb ei drefnu er mwyn pennu a yw'r plentyn yn ddiogel.

Gall unrhyw ddisgybl fod yn destun Ymweliad Ymateb Lles gan y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles ble mae gan yr ysgol bryder ynghylch presenoldeb, neu ddiffyg cyswllt gan rieni. Bwriad yr ymweliadau yma yw cynnig y cymorth cywir i oresgyn, yn gynnar, unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol.

5. Llythyron absenoldeb a thystiolaeth ategol

Bydd yr ysgol yn cadw llythyron gan rieni sy'n nodi'r rhesymau dros absenoldeb am gyfnod penodol, yn unol â pholisïau cadw'r ysgol. Bydd rhieni a chynhalwyr eisoes yn gwybod mai dim ond y pennaeth (neu'r unigolyn sy'n ei gynrychioli/ei chynrychioli) sydd â'r hawl i awdurdodi absenoldeb. Efallai bydd angen rhagor o wybodaeth, fel llythyr gan y meddyg er mwyn cofnodi'r rhesymau dros yr absenoldeb.

6. Absenoldebau meddygol a salwch

Mae'r ysgol yn deall y bydd adegau lle mae'n rhaid i ddisgybl fynd i apwyntiad meddygol yn ystod y dydd. Yn yr achosion yma, dylai'r ysgol weld copi o'r llythyr apwyntiad yr ysbyty **cyn** diwrnod yr apwyntiad fel bod yr ysgol yn ymwybodol o'r trefniadau. Serch hynny, dydy hyn ddim yn berthnasol i apwyntiadau doctor neu'r deintydd cyffredinol. Mae modd eu trefnu tu allan i oriau'r ysgol, a dylid ymdrechu i wneud hynny.

Os fydd disgybl yn absennol yn gyson oherwydd salwch, efallai bydd yr ysgol yn gofyn am dystiolaeth sy'n dangos bod y disgybl yn derbyn y driniaeth feddygol angenrheidiol. Byddai cerdyn apwyntiadau, llythyr o'r meddyg neu lun o feddyginiaeth ar bresgripsiwn yn ddigonol fel dystiolaeth meddygol. Heb y dystiolaeth angenrheidiol, efallai bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhiant neu gynhaliwr fyddan nhw ddim yn awdurdodi unrhyw absenoldebau eraill yn y dyfodol nes bod y dystiolaeth feddygol angenrheidiol wedi'i darparu. Efallai bydd yr ysgol yn atgyfeirio'r mater i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

7. Absenoldeb parhaus a chyson

Os bydd yna bryderon yn codi ynghylch cyfraddau mynychu'r ysgol, yna cyfrifoldeb yr athrawon dosbarth/tiwtoriaid cofrestru neu swyddogion presenoldeb yw e i dynnu sylw'r pennaeth at y materion yma (neu at sylw'r unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros bresenoldeb).

Mewn achos lle bydd disgybl yn datblygu patrwm absenoldeb, bydd yr ysgol yn ceisio datrus y broblem cyn gynted ag y bo modd. Efallai bydd hyn yn cynnwys gwahodd y disgybl a'i rieni neu gynhalwyr i gyfarfod yn yr ysgol. Serch hynny, os bydd yr absenoldeb yn parhau, bydd angen i'r ysgol wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles pan fydd y gyfradd mynychu'r ysgol yn gostwng islaw 86% am y chwe wythnos ysgol flaenorol.

Os bydd achos o 10 sesiwn neu'n fwy o absenoldebau heb awdurdod yn ystod tymor yr ysgol (mae dwy sesiwn mewn diwrnod, bore a phrynhawn), efallai bydd yr ysgol yn rhoi hysbysiad cosb benodedig yn unol â Chôn Ymddygiad yr awdurdod lleol.

8. Absenoldeb cyson

Diffiniad Llywodraeth Cymru o absenoldeb cyson yw disgyblion sydd â lefel absenoldeb sy'n uwch nag 20% (cyfradd mynychu'r ysgol sy'n llai na 80%). Bydd y disgyblion yma yn destun cynllun gweithredu er mwyn eu cynorthwyo wrth iddyn nhw ddychwelyd i batrwm mynychu'r ysgol llawn. Efallai bydd y cynllun yma'n cynnwys atgyfeiriad at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles er mwyn derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer y disgybl a'i deulu.

Os fydd y disgybl a'i deulu ddim yn ymgysylltu â'r cynllun gweithredu, efallai bydd camau llys yn cael ei gymryd yn erbyn y prif riant(rhieni) neu gynhaliwr(cynhalwyr) drwy'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

9. Absenoldeb yn ymwneud â gwahaniaethu

Efallai bydd disgybl yn absennol o'r ysgol o ganlyniad i fwlio. Mae sawl math o fwlio, gall fod yn uniongyrchol (naill ai'n gorfforol neu ar lafar) neu'n anuniongyrchol, er enghraifft, anwybyddu disgybl neu beidio â siarad ag ef/hi. Efallai bydd peth o'r bwlio yn deillio o wahaniaethu.

Fel ysgol, byddwn ni yn monitro ac adrodd bob tymor am unrhyw achosion o fwlio gwahaniaethol. Os bydd absenoldeb disgybl yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r achosion uchod, byddwn ni yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael ar y sefyllfa.

10. Cyfnod absenoldeb/gwyliau yn ystod tymor yr ysgol

Anogir yn weithredol bod disgyblion ddim yn cymryd cyfnodau absenoldeb yn ystod tymor yr ysgol. Mae'n effeithio'n wael ar allu'r disgybl i ymgysylltu â'r cwricwlwm llawn. Does gan rieni na chynhalwyr ddim hawl awtomatig i dynnu'u plant o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Byddan nhw'n cael eu hatgoffa o effaith absenoldebau ar gyrhaeddiad posibl y disgybl.

Bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw gais am absenoldeb ac er mwyn cynnal tegwch, dyma'r meini prawf wrth brosesu ceisiadau gwyliau:

- Er mwyn sicrhau gwyliau awdurdodedig rhaid llenwi Ffurflen Hysbysu am Wyliau o leiaf 4 wythnos cyn y gwyliau;
- Dylai'r presenoldeb fod yn uwch na 95% am y 12 mis diwethaf er mwyn i geisiadau gwyliau fod yn awdurdodedig;
- Ni fydd unrhyw wyliau yn cael eu hawdurdodi ym mis Medi oherwydd bod disgyblion yn ymgartrefu;
- Ni fydd gwyliau'n cael ei awdurdodi yn ystod cyfnodau arholiad ac asesiadau TGAU/Lefel A.

Mae'n bosib y bydd modd caniatáu gwyliau sydd ddim yn cyrraedd y meini prawf o dan amgylchiadau y mae'r ysgol yn eu hystyried yn eithriadol fel y canlynol:

- Teuluoedd personél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog;
- Rhiant neu blentyn sy'n dioddef o afiechyd a all gyfyngu neu fyrhau bywyd.

Mae'n bosib bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig i rieni neu gynhalwyr os ydyn nhw'n mynd â phlentyn ar wyliau neu gyfnod absenoldeb heb awdurdod yr ysgol. Mae copïau o God Ymddygiad yr awdurdod lleol o ran Cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gael o'r ysgol, gwefan yr awdurdod lleol neu o'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

11. Hysbysiadau Cosb Benodedig am Beidio â Mynychu'r Ysgol

Efallai y bydd yr ysgol yn gofyn i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad cosb benodedig os bydd rhiant/cynhaliwr wedi methu â sicrhau bod ei blentyn/ei phlentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae modd gwneud cais am hysbysiad cosb benodedig yn erbyn un o'r meini prawf canlynol:

1. Lle mae lleiafswm o 10 sesiwn heb awdurdod (5 diwrnod ysgol) yn y tymor presennol (nid oes angen i'r rhain fod yn olynol). Gallai hyn gynnwys disgyblion sy'n cyrraedd yn barhaus ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben.
2. Pan fo rhieni/cynhalwyr yn methu ag ymgysylltu ag ysgolion i wella cyfradd mynychu'r ysgol eu plentyn;
3. Pan fo disgybl yn chwarae triwant yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol (gall yr Heddlu ofyn am hysbysiad cosb am y drosedd hon);
4. Cymryd amser o'r ysgol i fynd ar wyliau heb ganiatâd yr ysgol.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, bydd Ysgolion Partneriaeth Pontypridd yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad yr awdurdod lleol ar gyfer hysbysiadau cosb benodol am ddiffyg presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Mae'n parhau i fod yn ôl doethineb y pennaeth i ganiatáu absenoldebau yn unol â chodau presenoldeb Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 a chanllawiau atodol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Caiff absenoldeb pob plentyn ei ystyried yn unigol ac efallai y caiff cais am hysbysiad cosb benodedig ei wneud, os yw hynny'n briodol, er mwyn annog presenoldeb y disgybl

yn y dyfodol. Os yw lefelau mynychu'r ysgol y disgybl yn sylweddol isel, yna mae modd ystyried gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn hytrach na gwneud cais am hysbysiad cosb benodedig.

12. Ailintegreiddio

Os ydy'r disgybl wedi bod yn absennol am gyfnod sylweddol, bydd cynllun ailintegreiddio'n cael ei gyflwyno sy'n unigryw i bob achos.

13. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Mae'r ysgol yn ymwybodol bod sicrhau presenoldeb cyson yn faes gwaith ymdrechgar. Sail y gwaith yma yw sefydlu a manteisio ar berthnasau gwaith agos rhwng rhieni, disgyblion, ysgolion, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant.

Rhan allweddol mewn unrhyw berthynas waith lwyddiannus yw dealltwriaeth glir o rôl a chyfrifoldebau pob person. Felly, mae'r canllaw canlynol yn egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r sawl sy'n ymwneud â mynd i'r afael â materion absenoldeb.

14.1 Y Rhiant

O dan Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, y rhiant/cynhaliwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei blentyn yn derbyn addysg lawn amser effeithiol sy'n briodol ar gyfer oedran, gallu a doniau'r plentyn ac ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y plentyn. Gallai hyn fod trwy fynychu'r ysgol, darpariaeth arall neu drwy addysg ddewisol yn y cartref (mae modd i'r rhiant/cynhaliwr ddewis i ddarparu addysg i'w plentyn).

Mae prydlondeb disgybl hefyd yn ofyniad cyfreithiol, mae'n bosibl y bydd rhieni/cynhalwyr i ddisgybl sy'n hwyr yn gyson (ar ôl i'r gofrestr cau) hefyd wynebu achos cyfreithiol. Weithiau, mae yna amgylchiadau yn y cartref sy'n ei wneud yn anodd i ddisgybl gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, caiff ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gynnig y cymorth sydd angen i'r teulu.

14.2 Yr Ysgol

O dan Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i ysgolion gymryd cofrestr ddwywaith y dydd; ar **ddechrau** cyfnod y bore, ac unwaith yn ystod cyfnod y prynhawn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyriadau statudol y gallai fod eu hangen. Dylid nodi ei bod yn drosedd peidio â chynnal cofrestri cywir.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw monitro cyfraddau mynychu'r ysgol unigryw yn rheolaidd a defnyddio'i dulliau ei ymyrraeth ei hun i fynd i'r afael â materion mynychu'r ysgol disgyblion unigol lle mae cyfradd mynychu'r ysgol y disgybl yn 86% ac uwch. Os bydd cyfradd mynychu'r ysgol unigolyn yn disgyn i fod yn 85% neu'n is dros gyfnod o chwe wythnos, heb reswm eithriadol (h.y. mae'r mwyafrif o'r absenoldeb heb awdurdod), dylai'r ysgol wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. Serch hynny, gall ysgol atgyfeirio disgybl at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles os oes pryderon lles, hyd yn oed os yw'r gyfradd mynychu'r ysgol yn uwch nag 85%, neu'i atgyfeirio ar gyfer Ymweliadau Ymateb Lles.

Yr Arweinydd Presenoldeb fydd yn gyfrifol am reolaeth strategol presenoldeb ar draws yr ysgol. Bydd yn archwilio'r data'n gyson, yn monitro tueddiadau a phatrymau ar draws carfan o ddisgyblion, ac yn gwerthuso ymyriadau am eu heffaith a'u heffeithiolrwydd ac yn cyfeirio adnoddau er mwyn cael y canlyniad gorau posibl.

Athrawon dosbarth fydd yn gyfrifol am lenwi cofrestrau sesiwn yn llawn ac yn gywir yn ystod pob sesiwn gofrestru. Mae'r ymarfer hwn yn sicrhau prosesau diogelu da, yn galluogi'r ysgol i wybod ble mae pob disgybl ar ddechrau pob sesiwn ac yn dechrau'r broses 'ymateb diwrnod cyntaf'; os nad yw'r disgybl yn bresennol. Dylid defnyddio meysydd nodiadau BROMCOM i sicrhau bod y manylion ychwanegol yn ymwneud â'r absenoldeb yn cael eu cyfleu a'u cadw ar ffeil.

Athrawon pwnc fydd yn gyfrifol am lenwi cofrestrau sesiwn yn llawn ac yn gywir yn ystod pob sesiwn gofrestru. Bydd disgwyl iddyn nhw adolygu presenoldeb yn eu maes pwnc, gan bennu a oes tueddiadau yn y data, a chynnal sgysiau gyda disgyblion a'u rhieni os mae pryderon yn codi.

Swyddog Presenoldeb/Gweinyddwr Presenoldeb fydd yn gyfrifol am y dyletswyddau presenoldeb gweithredol dyddiol. Byddant yn sicrhau bod yr holl gofrestrau wedi cael eu llenwi gan yr athrawon dosbarth ac athrawon pwnc yn ddyddiol ac os nad ydynt byddant yn mynd â hyn at yr Arweinydd Presenoldeb. Byddan nhw'n gwneud 'ymateb diwrnod cyntaf' bob bore ar gyfer y disgyblion hynny nad yw eu teuluoedd wedi cysylltu. Nhw fydd yn casglu'r dystiolaeth ategol, ac yn dilyn ceisiadau am unrhyw ffurflenni, nodiadau absenoldeb, ffurflenni cais am wyliau sydd heb eu clirio ac ati. Bydd y swyddogion yn casglu'r data wrth baratoi ar gyfer dadansoddiad gan yr Arweinydd Presenoldeb, tiwtoriaid dosbarth a phenaethiaid is-Ysgolion, a gwneud yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.

Er mwyn gwneud cais am hysbysiad cosb benodedig, bydd yr ysgol yn monitro patrymau presenoldeb unigol eu disgyblion. Os caiff tueddiadau eu nodi sy'n cyd-fynd â'r meini prawf a nodwyd yng Nghod Ymddygiad yr awdurdod lleol, mae gan ysgol gyfle i wneud cais ffurfiol i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad cosb.

14.3 Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles

Prif swyddogaeth y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yw gwella cyfraddau presenoldeb ym mhob ysgol a darpariaethau addysg eraill yn Rhondda Cynon Taf drwy gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd i oresgyn y rhwystrau sydd ganddyn nhw.

Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn darparu cymorth i ysgolion, disgyblion, a'u teuluoedd, er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd a ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau mewn perthynas ag absenoldeb. Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn gweithio ar y cyd ag ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth, ac yn gyswllt hanfodol rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddyn nhw.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar ran yr awdurdod yn ei allu gorfodi statudol, ac mae'n gyfrifol am nifer o ddyletswyddau cysylltiedig sy'n cynnwys:

- rheoleiddio a chyhoeddi trwyddedau cyflogaeth plant a pherfformio ar gyfer plant a phobl ifanc oedran ysgol, a'u gwarchodwyr;
- ymchwilio, nodi ac olrhain plant y cyfeirir atyn nhw fel "Plant sy'n Colli Addysg";

- goruchwyllo anghenion addysg disgyblion bregus, e.e. Teuluoedd Sipsiwn/Teithwyr;
- gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru i drefnu a chydlynu gweithrediadau triwantiaeth ffurfiol yn unol â deddfwriaeth Trosedd ac Anrhefn.

14.4 Carfan Cefnogi Ymgysylltu ag Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

Mae gwaith y Garfan Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yn ymwneud â phobl ifainc hyd at 25 oed. Mae'r staff yn gweithio'n agos â Gyrfa Cymru a'r ysgol i sicrhau bod y broses bontio ar gyfer y bobl ifainc hynny sy mewn perygl o ddadymgysylltu ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 oed yn dilyn blwyddyn 11.

14.5 (Oedran Uwchradd yn Unig) Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid (YEPS)

Bydd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifainc 11 oed a hŷn er mwyn meithrin eu hunan-barch a'u hunan hyder, cefnogi gwaith rhwng cyfoedion, a helpu i integreiddio'r bobl ifainc hynny i'r byd addysg. Bydd y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid yn cefnogi person ifanc i oresgyn rhwystrau cymdeithasol ac emosiynol maen nhw'n eu hwynebu sy'n eu rhwystro nhw rhag cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol, sy'n cael effaith negyddol ar eu presenoldeb.

14.6 Yr Heddlu

Mae'r Heddlu'n chwarae rôl sylfaenol ym mentrau Cyrchoedd Triwantiaeth. Dylai Swyddogion yr Heddlu gael gwybod am blant sydd â rheswm cyfiawn am beidio â bod yn yr ysgol yn ystod y dydd, yn enwedig plant sy'n derbyn addysg o'r cartref a disgyblion sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol. Yn ogystal â hyn, dylai'r Heddlu cael gwybod am wybodaeth berthnasol eraill fel oriau'r ysgol, gwyliau'r ysgol, diwrnodau hyfforddiant ac a yw plant eraill yn dod i'r ardal sydd â threfniadau ysgol gwahanol.

Dylai'r heddlu cael gwybod am ardaloedd cyfarwydd y bydd plant sy'n triwanti'n gyson yn ymgynnull, a'u henwau lle'n briodol.

Mae 'Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan' yn awgrymu bod swyddogion yr Heddlu sy'n gweithredu â'r hawl i siarad â phobl ifainc yn gwneud hynny pan fydden nhw yn eu gwisg swyddogol (o ganlyniad i bryderon diogelu plant). Os oes modd, dylai'r Heddlu hefyd fod yng nghwmni Swyddog Mynychu'r Ysgol a Lles, gan fod modd iddyn nhw wirio statws yr ysgol berthnasol.

Lle'n briodol, bydd yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael eu galw mewn perthynas â phroblemau'n ymwneud â disgyblion yn ymgynnull ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

Yn ystod Cyrchoedd Triwantiaeth, efallai bydd achosion lle bydd yr unigolion dan amheuaeth yn gwrthod cydymffurfio. Mewn achosion fel hyn, a bod gan Swyddog yr Heddlu sail resymol dros gredu bod y plentyn neu'r person ifanc yn absennol o'r ysgol heb awdurdod, mae adran 16 ac adran 8 yn rhoi hawl i'r swyddog i ddefnyddio grym rhesymol fel sy'n angenrheidiol dan yr amgylchiadau. Yn yr un modd, unwaith y bydd y plentyn yn cael ei ddychwelyd i'r Lleoliad Canolog Dynodedig neu Ysgol a bod yr unigolion dan amheuaeth yn gwrthod cydymffurfio, os oes gan Swyddog yr Heddlu sail resymol dros gredu bod y plentyn neu'r person ifanc yn absennol o'r ysgol heb awdurdod, mae'r hawl ganddo/ganddi o dan adran 117 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn

galluogi'r swyddog i ddefnyddio grym rhesymol fel sy'n angenrheidiol dan yr amgylchiadau.

Fel rhan o God Ymddygiad yr awdurdod lleol ar gyfer mynd i'r afael â diffyg presenoldeb yn yr ysgol, mae hawl gan yr Heddlu i ofyn bod Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyhoeddi os bydd disgybl yn cael ei ganfod mewn lle cyhoeddus yn ystod oriau'r ysgol (triwntio).

14. Mentrau ar gyfer Mynychu'r Ysgol

Bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos er mwyn hyrwyddo mynychu'r ysgol, cyfraddau mynychu'r ysgol da a mynd i'r afael ag absenoldebau heb awdurdod.

Bydd yr ysgol yn defnyddio system wobrwyo i blant sydd â phresenoldeb da, neu sy'n llwyddo i wella'u cyfradd mynychu'r ysgol. Rhaid i unrhyw system wobrwyo yn un sy'n arwyddocaol i'r disgyblion, a sicrhau bod amseru'r gwobrwyo yn cael ei ystyried fel bod y plant yn cysylltu'r gwobrwyo â'u presenoldeb.

Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles er mwyn ymgymryd â mentrau'r awdurdod lleol fel Ymweliadau Ymateb Lles, sesiynau Cwrdd a Chyfarch, a grwpiau targed.

15. Categoriadau absenoldebau

Rhaid i unrhyw ddisgybl sydd ar gofrestr yr ysgol ac sydd yn absennol gael ei gofnodi o fewn un o'r categorïau canlynol.

- Absenoldeb wedi'i awdurdodi
- Absenoldeb heb ei awdurdodi
- Gweithgaredd Addysgol Awdurdodedig

Absenoldeb heb ei awdurdodi

Mae'r codau yma ar gyfer sesiwn lle mae disgybl yn absennol heb reswm, neu os yw'r absenoldeb yn un sydd wedi'i bennu'n un heb reswm dilys.

Absenoldeb wedi'i awdurdodi

Mae'r codau yma ar gyfer disgyblion yn absennol ac mae'r rheswm wedi'i bennu'n un dilys. Efallai bydd amgen tystiolaeth er mwyn cefnogi'r rheswm sydd wedi'i nodi (e.e. tystiolaeth feddygol, cerdyn apwyntiad, ac ati).

Gweithgaredd Addysgol Awdurdodedig

Mae'r codau yma'n cynnwys mathau o weithgareddau addysgol oddi ar y safle sydd dan oruchwyliaeth. Rhaid bod y gweithgareddau wedi'u hawdurdodi gan yr ysgol a/neu'r Awdurdod Lleol, a bod y sesiwn yn cael ei oruchwyllo gan diwtor cymwys.

Byddai hyn yn cynnwys:

- Lleoliadau profiad gwaith
- Teithiau ysgol ac ymweliadau addysgol

- Gweithgareddau chwaraeon
- Cyrsiau cyswllt neu addysg awdurdodedig mewn lleoliad arall
- Addysg sydd wedi'i threfnu gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS)

16. Cofrestriad deul

Bydd disgyblion sydd yn mynychu dwy ysgol wedi'u cofrestru gyda'r naill leoliad. Mae'r statws cofrestru yn y system wybodaeth reoli yn nodi'r prif leoliad addysg a ph'un yw'r is-leoliad. Sefyllfa enghreifftiol byddai disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol yma, ond sydd hefyd yn mynychu darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol neu uned cyfeirio disgyblion am ddyddiau penodol bob wythnos. Y brif ysgol fydd yr ysgol lle mae'r disgybl yn treulio dros 50% o'i hamser. Y llall fydd yr is-leoliad.

Yr ysgol, neu'r lleoliad lle mae disgwyl i'r plentyn fod yn bresennol, sydd yn gyfrifol am gadw cofnod cywir o bresenoldeb y disgybl ac archwilio unrhyw ddiffyg presenoldeb. Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r darparwr addysg arall bob dydd er mwyn nodi'r disgyblion sydd yn absennol o'r sesiwn a'u nodi ar y gofrestr yn unol â hynny.

17. Cadw cofnodion

Caiff cofrestri cyfrifiadurol eu cadw fel copïau electronig wrth gefn. Mae rheoliadau mynychu'r ysgol yn nodi y dylid cadw cofnodion am o leiaf tair blynedd; fodd bynnag, mae'n arfer da ymestyn y cyfnod yma'n unol â'r amserlen cadw cofnodion addysg.

18. Gwirio cofrestri

Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal gwiriadau ffurfiol o gofrestri'r ysgol bob tymor er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol. Dylid nodi bod cofrestri yn ddogfennau cyfreithiol ac mae'n drosedd i beidio â chynnal cofnodion cywir.

19. Targedau mynychu'r ysgol

Mae system wedi'i sefydlu sy'n dadansoddi cyflawniad tuag at y targedau. Y Pennaeth sydd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith yma. Bydd yr ysgol a'r Corff Llywodraethu yn defnyddio'r data mynychu'r ysgol sydd ar gael gan Gonsortium Canolbarth y De a'r awdurdod lleol wrth adolygu targedau a dadansoddiad y deilliannau o'u cymharu ag ysgolion tebyg o ar draws y rhanbarth.

Bydd y Pennaeth yn cyflwyno'r data mynychu'r ysgol ym mhob adroddiad tymhorol i'r Corff Llywodraethu er mwyn i'r Llywodraethwyr graffu'r ffigyrau yn erbyn y data cyrhaeddiad. Bydd gan Lywodraethwyr gyfle i herio'r data ochr yn ochr â'r arferion ar gyfer rheoli presenoldeb er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb cyffredinol ar draws yr ysgol ac o fewn carfanau o ddysgwyr penodol.

20. Cynllun Gweithredu Strategol

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu er mwyn dangos sut mae'r ysgol yn bwriadu cyflawni ei thargedau mynychu'r ysgol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol: nodau'r ysgol ar gyfer grwpiau o ddysgwyr sy'n dueddol o fod yn absennol (gan gynnwys disgyblion sy'n agored i niwed), sut mae'n bwriadu cau'r bwlch rhwng cyfraddau

mynychu'r ysgol y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r sawl sydd ddim yn eu derbyn, rheolaeth weithredol presenoldeb, rheolaeth strategol presenoldeb gan gynnwys gwerthuso effaith ymyriadau ac ati.

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a chaiff ei ddefnyddio i lywio Cynllun Gwella'r Ysgol.

ATODIAD 1

Y system gofrestru

Bydd y codau cenedlaethol canlynol yn cael eu defnyddio i gofnodi manylion presenoldeb.

COD	DISGRIFIAD	YSTYR
/	Presennol (BORE)	Yn bresennol
\	Presennol (PRYNHAWN)	Yn bresennol
B	Wedi'i addysgu oddi ar y safle (DIM cofrestru deuol)	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
C	Amgylchiadau eraill wedi'u hawdurdodi (sydd ddim â chod/disgrifiad)	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
D	Cofrestru deuol (h.y. mae'r disgybl yn mynychu sefydliad arall)	Gweithgarwch Addysg Cymeradwy
E	Wedi'i wahardd (dim darpariaeth arall wedi'i threfnu)	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
F	Gwyliau teuluol estynedig (wedi'u	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
G	Gwyliau teuluol estynedig (HEB eu cytuno <u>neu</u> wedi	Absenoldeb heb ei awdurdodi
H	Gwyliau teuluol (wedi'u cytuno)	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
I	Salwch (NID apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
J	Cyfweliad	Gweithgarwch Addysg
L	Hwyr (cyn diwedd cofrestru)	Yn bresennol
M	Apwyntiad meddygol neu	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
N	Dim rheswm wedi'i ddarparu hyd yma ar gyfer yr	Absenoldeb heb ei awdurdodi
O	Absenoldeb heb ei awdurdodi (sydd ddim â chod/disgrifiad arall)	Absenoldeb heb ei awdurdodi
P	Gweithgarwch chwaraeon	Gweithgarwch Addysg
R	Defod grefyddol	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
S	Absenoldeb ar gyfer astudio	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
T	Absenoldeb teithwyr	Absenoldeb wedi'i awdurdodi
U	Hwyr (ar ôl diwedd cofrestru)	Absenoldeb heb ei awdurdodi
V	Ymweliad neu daith addysgol	Gweithgarwch Addysg
W	Profiad gwaith	Gweithgarwch Addysg
X	Sesiynau heb eu hamserlennu ar gyfer disgyblion sydd ddim yn	Heb eu cyfrif yn y diwrnodau presenoldeb posib
Y	Ysgol ar gau'n orfodol	Heb eu cyfrif yn y diwrnodau presenoldeb posib
Z	Disgyblion ddim ar gofnod yr ysgol eto	Heb eu cyfrif yn y diwrnodau presenoldeb posib
#	Ysgol ar gau i ddisgyblion	Heb eu cyfrif yn y diwrnodau presenoldeb posib

ATODIAD 2

Deddfwriaeth a chanllawiau

Mae Deddf Addysg 1996 Rhan 1, Adran 7 yn nodi:

'The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable:

- (a) to his age, ability and aptitude and
- (b) to any special needs he may have either by regular attendance at school or otherwise.'

At ddibenion addysgol mae'r term 'rhiant' yn golygu rhieni naturiol ac yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant neu sydd â gofal o ddydd i ddydd y plentyn.

Mae Adran 444 1, 1(a) a (ZA) yn cynnwys manylion o pan fydd hi'n drosedd os na fydd plentyn yn mynychu'r ysgol neu ddarpariaeth arall wedi'i drefnu gan yr Awdurdod Lleol.

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn gosod y fframwaith er mwyn gweithredu cynllun Hysbysiad Cosb Benodedig.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Cofrestrau a mynediad.

- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2006

Targedau cyfraddau mynychu'r ysgol

- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb heb Awdurdod) (Cymru) (Diwygio) 2006.

Dogfennau cyfarwyddyd sy'n ymwneud â phresenoldeb

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel
- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006 Cynhwysiant a Chymorth i Ddisgyblion.
- Strategaeth Presenoldeb Consortiwm De Ddwyrain Cymru
- Cod Ymddygiad Lleol yn ymwneud â'r cynllun Hysbysiad Cosb Benodedig
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar hysbysiadau cosb am beidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar godau presenoldeb

Atodiad 6: Codau ar gyfer cyrsiau a gweithgareddau cyffredin RhCT

<u>EITHRIADAU</u>	<u>Cod</u>	<u>Engbreiffiau Maes Nodiadau BROMCOM</u>
Arholiadau Cerddoriaeth	B	Arholiad Cerddoriaeth Derbyn a chael copi o lythyr
Therapi Iaith a Lleferydd	B	Derbyn a chael copi o'r llythyr SALT
Clinig Asma	M	Clinig Asma. Copi o'r cerdyn apwyntiad
Ffisiotherapi	M	Copi o'r cerdyn apwyntiad am Ffisiotherapi
Teithiau Chwaraeon	C	Taith (e.e. Rygbi) a'r dyddiad Copi o'r dystiolaeth
Academi Pêl-droed (â addysgu mewn dosbarth)	B	E.e. Academi Caerdydd ac addysgu. Copi o lythyr
Academi Pêl-droed (heb addysgu mewn dosbarth)	C	E.e. Academi Abertawe Copi o lythyr
Cystadlaethau Clwb neu Genedlaethol	P	Gweithgaredd / Cystadleuaeth, Lleoliad a'r Dyddiad Copi o lythyr
Taith Tramor am Gystadleuaeth	P	Gweithgaredd / Cystadleuaeth, Lleoliad a'r Dyddiad Copi o lythyr
Amserau teithio i'r cystadlaethau (ynghyd â llythyr gan y Clwb)	C	Teithio i (Enw'r lle) ar gyfer cystadleuaeth. Copi o lythyr
E-ddysgu, lle mae yna becyn sydd wedi'i gytuno â'r Awdurdod Lleol	B	E-ddysgu Copi o'r llythyr dystiolaeth.
Plentyn yn perfformio	C	Plentyn yn perfformio. Tystiolaeth gyda'r Awdurdod Lleol.
Codau Bl. 11 ar gyfer ar ôl arholiadau (dim gwyliau astudio)	C	

* Rhaid i'r ysgol gadw unrhyw dystiolaeth sydd wedi'i ddarparu i ategu defnydd y cod

Cyhoeddiadau defnyddiol:

Mae'r ddeddfwriaeth, canllawiau a dogfennau canlynol yn sail i'r wybodaeth a'r arweiniad yn y pecyn cymorth yma:

- Deddf Addysg 1996
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Addysg ac Adolygiadau 2006
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2004
- Y Wlad sy'n Dysgu a'r Wlad sy'n Dysgu 2: Wlad sy'n Dysgu 2, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006)
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
- Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl ifainc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005)
- Strategaeth Datblygu'r Gweithlu – Plant a Phobl Ifainc
- Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol Annibynnol o Ymddygiad a Phresenoldeb, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009)
- Cynhwysiant a Chymorth Disgyblion – Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 47/2006
- Gwahardd disgyblion o Ysgolion ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion, Cylchlythyr 171/2015
- Gwella Presenoldeb 2006, Estyn
- Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009
- Gwasanaethau i blant a phobl ifainc sydd ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, 2009
- Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan. Pecyn cymorth gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2011
- Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb Cymru Gyfan, Llywodraeth Cymru, 2011
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013
- Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Canllawiau presenoldeb ar gyfer rhieni a chynhalwyr

Absenoldebau

- Dylech gysylltu â'r ysgol erbyn 9.00am os fydd plentyn yn methu â dod i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw trwy e-bostio presenoldeb.attendance@gartholwg.cymru neu ffonio'r llinell presenoldeb 01443 570050
- Dylech nodi rheswm **llawn** am ddiffyg presenoldeb y plentyn; dydy dweud "teimlo'n sâl" yn unig ddim yn ddigonol.
- Dylech nodi hefyd pryd mae'n debygol bydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol / neu gysylltu'n ddyddiol
- Dylech fod yn barod i ateb cwestiynau gan staff ynghylch cyflwr y disgybl, patrymau neu dueddiadau absenoldeb, ac unrhyw driniaeth y gallen nhw fod yn derbyn.

Absenoldebau meddygol

- Mae'r ysgol yn deall y bydd adegau lle mae'n rhaid i ddisgybl fynd i apwyntiad meddygol yn ystod y dydd. Yn yr achosion yma, dylai'r ysgol weld copi o'r llythyr apwyntiad yr ysbyty **cyn** diwrnod yr apwyntiad fel bod yr ysgol yn ymwybodol o'r trefniadau.
- Dydy hyn ddim yn berthnasol i apwyntiadau doctor neu'r deintydd cyffredinol; mae modd eu trefnu tu allan i oriau'r ysgol, a dylid ymdrechu i wneud hynny.

Absenoldeb parhaus a chyson

- Mewn achos lle bydd disgybl yn datblygu patrwm absenoldeb, bydd yr ysgol yn ceisio datrus y broblem cyn gynted ag y bo modd. Bydd hyn yn cynnwys eich gwahodd i gyfarfod yn yr ysgol.
- Os bydd yr absenoldeb yn parhau, bydd angen i'r ysgol wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.
- Os bydd achos o 10 sesiwn neu'n fwy o absenoldebau heb awdurdod yn ystod tymor yr ysgol (mae dwy sesiwn mewn diwrnod, bore a phrynhawn), efallai bydd hysbysiad cosb benodedig yn unol â Chôn Ymddygiad yr awdurdod lleol.

Prydlondeb

- Bydd sesiwn cofrestru'r bore yn digwydd ar ddechrau'r diwrnod ysgol:
Ysgol Isaf: 8.50yb
Ysgol Ganol 5 a 6 : 8.45yb
Ysgol Ganol 7 ac 8, Ysgol Uchaf/Hŷn: 8.30yb
- Bydd sesiwn cofrestru'r prynhawn yn dechrau:
Ysgol Isaf, Ysgol Ganol 5 a 6: 1yp
Ysgol Ganol 7 ac 8, Ysgol Uchaf/Hŷn: 12:10
- Bydd y gofrestr ar agor am 30 munud ar ôl agor y sesiwn cofrestru a bydd unrhyw ddisgybl sydd yn cyrraedd ar ôl yr amser yma yn cael eu cofnodi fel yn

bresennol ond yn hwyr (cod L) os ydyn nhw'n cyrraedd o fewn 30 munud. Ar ôl 30 munud bydd y disgybl yn cael ei gofnodi'n absennol heb awdurdod (cod U).

- Mewn achos o'ch plentyn yn cyrraedd yn hwyr yn gyson, bydd yr ysgol yn cysylltu drwy lythyr yn nodi'r effaith ar bresenoldeb y plentyn a'u cyrhaeddiad dilynol.
- Os ydy'ch plentyn yn parhau i gyrraedd yn gyson ar gyfer y sesiwn cofrestru ar ôl derbyn llythyr, bydd yr ysgol yn cysylltu i drafod rhwystrau sy'n atal y plentyn rhag cyrraedd yn brydlon a chynnig cymorth lle bo'n briodol.
- Os yw nifer y codau absenoldeb heb awdurdod neu hwyr (codau O neu U) yn 10 neu'n uwch ar gyfer y tymor presennol, bydd modd i'r Awdurdod Lleol cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig ar gyfer bod yn hwyr yn gyson ar ôl cau'r gofrestr.

Gwyliau

Does gan rieni na chynhalwyr ddim hawl awtomatig i dynnu'u plant o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol. Mae'n effeithio'n wael ar allu'r disgybl i ymgysylltu â'r cwricwlwm llawn. Mae'n bosib bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiad cosb benodedig i rieni neu gynhalwyr os ydyn nhw'n mynd â phlentyn ar wyliau neu gyfnod absenoldeb heb awdurdod yr ysgol.

Mae modd derbyn ffurflen gais am gyfnod absenoldeb oddi wrth yr ysgol, naill ai trwy e-bostio presenoldeb.attendance@gartholwg.cymru, ffonio'r llinell presenoldeb 01443 570050 neu lawr lwytho copi o'r we (<https://gartholwg.cymru/cyswllt/>). Mae modd dychwelyd y ffurflen trwy e-bostio, trwy bostio neu mewn person.

Bydd yr ysgol yn ystyried unrhyw gais am absenoldeb ac er mwyn cynnal tegwch, dyma'r meini prawf wrth brosesu ceisiadau gwyliau:

- Er mwyn sicrhau gwyliau awdurdodedig rhaid llenwi Ffurflen Hysbysu am Wyliau o leiaf 4 wythnos cyn y gwyliau;
- Dylai'r presenoldeb fod yn uwch na 95% am y 12 mis diwethaf er mwyn i geisiadau gwyliau fod yn awdurdodedig;
- Ni fydd unrhyw wyliau yn cael eu hawdurdodi ym mis Medi oherwydd bod disgyblion yn ymgartrefu;
- Ni fydd gwyliau'n cael ei awdurdodi yn ystod cyfnodau arholiad ac asesiadau TGAU/Lefel A.
- Mae'n bosib y bydd modd caniatáu gwyliau sydd ddim yn cyrraedd y meini prawf o dan amgylchiadau y mae'r ysgol yn eu hystyried yn eithriadol fel y canlynol:
- Teuluoedd personél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog;
- Rhiant neu blentyn sy'n dioddef o afiechyd a all gyfyngu neu fyrhau bywyd.

